

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 20fed o Fehefin 2017.

Presennol: Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Einir Thomas

Cyflwyniad gan: Alyn Jones a Claire Duffy o SP Energy Networks.

Cyhoeddwyd bod y cynllun gwreiddiol i roi cebl 132kV tanddaearol drwy Stad Tre lfan wedi ei ddiwigio yn dilyn gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned yn fis Chwefror. Ers hynny bu ymgynghoriad iawn gyda'r tir feddianwyr. Bwriad y cyfarfod yma oedd egluro'r cynllun diwygiedig a dangos llwybr newydd i'r cebl ar draws y tir ar gwr y pentref i'r is-orsaf yng Nghaergeri. Roedd y cais cynllunio yn barod i'w roi gerbron y Cyngor Sir yn fuan wedyn. Os bydd y cynllun yn cael ei ganiatáu bydd y gwaith yn dechrau at ddiwedd 2017 ac yn debyg o orffen erbyn Rhagfyr 2018. Roedd y gwaith o osod y cebl tanddaearol ar draws yr A5 ac ar hyd Lôn Cymyran yn debyg o gymryd tua dau fis ond ni chafwyd manylion pellach ar hyn.

1. Datganiad o ddiddordeb: dim

2. Cofnodion cyfarfod 16 o Fai 2017:

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Beryl Salisbury.)

3. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae chwarae - Cyflwynwyd adroddiad chwarterol cyntaf Medwyn Owen (yr Arolygydd Gweithredol R.P.I.I.). Cadarnhaodd fod y ffensys a'r offer mewn cyflwr da, ond gallai'r arwyddion gael eu gwella. Nodwyd fod peryglon baglu mewn rhai manau lle'r oedd y teils rwber wedi gwahanu. Cytunwyd i symud ymlaen a gofyn eto am ddyfynbris am wneud y gwaith hwn.

2. Llwybrau: Cyflwynwyd bil am £300 + TAW gan GMS am dorri'r llwybrau ond ni chafwyd manylion am ba lwybrau oedd wedi cael eu torri am y pris yma. O gofio'r nifer o gwynion a dderbyniwyd y llynedd cytunwyd i ddal y taliad hyd nes daw cadarnhad o'r gwaith a wnaeth.

Cadarnhaodd Simon Hannaby (GMS) bod llwybr 5 ar y rhestr o lwybrau sydd yn Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

cael eu torri'n rheolaidd ond dywedodd bod rhywun yn dympio gwastraff gardd yno hefyd.

Nodwyd bod trefnwyr Gŵyl Madam Wen (Iorweth Arms, Bryngwran) yn werthfawrogol iawn o'r gwaith a wnaed i glirio a thorri'r llwybr i lawr at ogof Madam Wen.

3. Llochesi Bws: roedd y clerc yn cael traferth cael ail ddyfyniad am atgyweirio'r llochesi fws, penderfynwyd gofyn i CSYM am gyfeiriad cyswllt i'r gwneuthurwr.
4. Seddi Gwag: byddai'r clerc yn rhoi gwybod i CSYM bod y Cyngor Cymuned yn awyddus i fwrw ymlaen â hysbysebu'r rhain mor fuan ac sydd bosib.
5. Gwaith ar safle Cofeb Matthew Bach - Cyflwynwyd dyfyniad am £200 gan Craig Redmond am glirio a phlannu gardd o amgylch y garreg goffa. Cytunwyd i ofyn iddo wneud y gwaith cyn gynted â phosibl.
6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

4. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref: dim i'w gyflwyno.

5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith – diweddariad.
2. Pwyllgor Safonau - Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau - Cyflwynwyd gwahoddiad i enwebu un aelod etholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, roedd angen cwblhau ffurflen enwebu a'i dychwelyd at y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro erbyn 5yh ar 31 Gorffennaf 2017.
3. Hyfforddiant i Gynghorwyr Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig - Roedd y Pwyllgor Safonau yn cynnig sesiynau hyfforddi a gofynnwyd i gynghorau lenwi matrices i gadarnhau eu dewisiadau ar sut y bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu.

6. Materion Ariannol

Yn y banc ar 20.6.2017 Cyfrif Cyfredol £9553.61, Cyfrif Cadw £3,921.50

Llofnod.....Cadeirydd.....

Taliadau i'w gwneud

Cyflog y Clerc (Mai)	£178.14	HMRC (TWE)	£44.54
Les Cae Chwarae	£137.00	Frank Rowlands	£180.00
M. Owen (Arolwg Offer Chwarae)	£40.00	GMS	£535.20

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Gordon Owen.)

7. Cyfrifon 2016/17

Adroddwyd bod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol (Mr John Roberts) a chafwyd cadarnhad ganddo fod popeth mewn trefn.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon a'i chyflwyno i'r Archwilydd Allanol.

8. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol

1. Bwletin Un Llais Cymru
2. National Assembly for Wales Research Service blog (Saesneg yn unig)
3. Hyfforddiant Un Llais Cymru
4. Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru - Cylchlythyr Mehefin 2017.

9. Unrhyw fater arall:

Dywedodd Cyng. Victor Owen fod Sqd Ldr David Williams wedi gofyn iddo a fyddai'n bosib iddo ddod i gyfarfod y Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd y clerch nad oedd wedi clywed ganddo ers i'r gwaith ddechrau ar Camp Fali ond roedd croeso iddo ddod yn enwedig wrth ei fod yn amlwg ers tro ei fod yn mynychu cyfarfodydd y cynghorau cyfagos.

10. Cyfarfod Nesaf – 18fed o Orffennaf 2017.

Llofnod.....Cadeirydd.....